# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 3**

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

**PENNOD 2**

MANWERTHWYR TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

*Gorfodi*

PROSPECTIVE

**47 Eiddo a gedwir: apelau**

(1) Caiff person ("P") a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o dan adran 44(1)(c) ("eiddo a gedwir") wneud cais drwy gŵyn i unrhyw lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ryddhau, naill ai i P neu i berson arall.

(2) Os yw'r llys, ar gais o dan yr adran hon, wedi ei fodloni nad yw'n angenrheidiol parhau i gadw'r eiddo a gedwir at ddiben canfod a yw trosedd o dan adran 38(1), (2) neu (4) wedi ei chyflawni, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

(3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon gynnwys pa ddarpariaeth bynnag y mae'r llys yn meddwl ei bod yn briodol er mwyn gohirio ei ddwyn i rym wrth aros i apêl (gan gynnwys cais o dan adran 111 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43)) gael ei gwneud a dyfarnu arni.

(4) Os yw'r llys yn gohirio gwrandawiad cais o dan yr adran hon, caiff wneud gorchymyn mewn cysylltiad â'r eiddo a gedwir sy'n para tan wrandawiad terfynol y cais neu hyd

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 47 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

nes y gwneir unrhyw orchymyn pellach, os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

(5) Nid oes dim byd yn yr adran hon sy'n effeithio ar unrhyw bŵer arall sydd gan y llys i wneud gorchymyn mewn cysylltiad â'r eiddo a gedwir, gan gynnwys unrhyw bŵer i wneud gorchymyn o dan adran 1 o Ddeddf yr Heddlu (Eiddo) 1897 (p.30).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 47 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2